John Williams 1796–1839

Cenhadwr yn Ynysoedd y Môr Tawel

Ganwyd John Williams yn Tottenham High Cross, Middlesex, ar 29 Mehefin 1796 i deulu o Gristnogion da eu byd. Fel plentyn cyfansoddai emynau a gweddïai yn gyson ond erbyn ei arddegau roedd wedi colli unrhyw fath o ffydd. Derbyniodd addysg elfennol mewn ysgol yn Lower Edmonton ac fe'i prentisiwyd mewn siop haearnwerthwr yn City Road, Llundain. Pan oedd yn ddeunaw oed cafodd dröedigaeth yn y Tabernacl Moorfields wrth wrando ar y Parch. Timothy East yn pregethu ar yr adnod, 'Pa elw a gaiff rhywun o ennill yr holl fyd a fforffedu ei fywyd?'(Marc 8:36). Yn raddol teimlodd alwad i'r genhadaeth. Ym 1816 fe'i derbyniwyd gan y London Missionary Society ac fe'i penodwyd i weithio yn Ynysoedd y Môr Tawel. Ordeiniwyd ef ynghyd ag wyth arall i'r gwaith a hynny yn Surrey Chapel, Llundain, ar 30 Medi 1816.

Hwyliodd gyda'i wraig Mary Chawner ar yr *Harriet* ar 17 Tachwedd 1816 gan gyrraedd Ynys Society, ger Tahiti, ar 17 Tachwedd 1817 lle roedd gorsaf genhadol wedi ei sefydlu. Ni ddaeth llwyddiant mewn gwirionedd hyd nes i'r prif bennaeth Pomare II droi at y Duw Jehofa oddi wrth y duw traddodiadol Oro. Er i Gristnogaeth gael ei mabwysiadu yno fel crefydd swyddogol, arwynebol oedd ei dylanwad. Roedd moesau'r bobl yn isel ac yr oedd tuedd ynddynt tuag at fod yn ddiog. Ceisiodd John Williams eu hannog i fod yn fwy diwyd ac i adeiladu cychod a thyfu cansenni siwgr.

Roedd John Williams yn awyddus i gyrraedd mwy o bobl. Pan wrthododd y genhadaeth ei gefnogi penderfynodd weithredu o'i ben a'i bastwn ei hun. Prynodd sgwner, *The Endeavour*, ac aeth â hi i fforio yn Ynysoedd Môr y De gan ariannu'r ymgyrch trwy fasnachu gyda'r brodorion. Ei nod cyntaf oedd canfod Ynys Rarotonga. Wedi gwneud hynny treuliodd un mlynedd ar ddeg yn sefydlu gorsafoedd cenhadol.

Oherwydd cyni ariannol gwerthodd y llong. Eto roedd yn awyddus i barhau gyda'r gwaith ac adeiladodd, mewn pymtheg wythnos, long o'r

enw *The Olive Branch* ac ymwelodd â Tahiti, Ynysoedd Savage, Ynysoedd Tonga a Samoa ynddi. Yna, dychwelodd i Rarotonga i gwblhau ei gyfieithiad o'r Testament Newydd.

Pan ddychwelodd adref am wyliau ym 1834 sylweddolodd fod ei deithiau wedi ei wneud yn enwog. Roedd y London Missionary Society bellach yn barod i gefnogi ei waith. Addawsant anfon arian iddo i adeiladu coleg diwinyddol yn Rarotonga a Tahiti. Pan ddychwelodd i Ynysoedd Môr y De ar ei long newydd y *Camden* ym 1837 parhaodd gyda'r gwaith. Roedd am gychwyn gwaith Cristnogol ar Ynysoedd yr Hebrides Newydd ond pan oedd ar ymweliad â Bae Dillon yn Erromanga fe'i lladdwyd ef a'i gyfaill James Harris ac fe'u bwytawyd gan y brodorion ar 20 Tachwedd 1839.

Casglwyd gweddillion y ddau gan Gapten Croker o'r HMS *Favourite* a'u claddu yn Apia ar Ynys Upolu, Samoa. Cydnabyddir John Williams fel un o'r cenhadon mwyaf llwyddiannus yn y cyfnod modern.

Yn ogystal â'i waith cyfieithu, cyhoeddodd yn Ebrill 1837 *A Narrative of Missionary Enterprises in the South Sea Islands*. Daeth y llyfr hwn yn boblogaidd iawn a gwerthwyd 38,000 copi mewn chwe blynedd. Bu'r llyfr hefyd o fudd mawr i genhadon eraill a'i holynodd gan gynnwys James Chalmers. Rhwng 1844 a 1971 enwodd y London Missionary Society gyfres o longau a weithiai yn y Môr Tawel er cof am John Williams.